

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Liz Pritchard (Llanefydd) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei brawd, Jim Proctor Davies, yr wythnos ddiwethaf. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich galar a'ch hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Anfonwn ein cofion at Elwyn Tudor (Henllan) a Iorwen Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Llinos Hughes a Richard M. Jones (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Hyderwn eich bod chi, ac eraill o'n plith sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, yn adnabod gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu.

Mewn cyfarfod arbennig o Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas y penwythnos hwn, fe fyddant yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr nifer o flaenoriaid – rhai ohonynt o'r Ofalaeth hon – sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth yn eu heglwysi ac i'r Henaduriaeth. Gan na fu'n bosibl cynnal yr oedfaon arbennig yma yn ystod cyfnod y pandemig, mae'r cyfnod gwasanaethu ychydig yn fwy na'r nifer blynyddoedd a nodir, ond rydym ninnau fel Gofalaeth am ddiolch yn gywir iawn iddynt am eu hymroddiad a'u gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau i Mr Trefor Williams (Peniel) a Mr Arthur Pierce (Cefn Meiriadog) ar ddathlu 50 mlynedd ers eu hordeinio, a Mrs Mary Williams (Llanfair) ar ddathlu 40 mlynedd ers ei hordeinio. Roedd y diweddar Mr H. Glyn Williams (Cefn Meiriadog) hefyd wedi gwasanaethu fel blaenor am 60 mlynedd pan fu farw ychydig cyn i'r pandemig ein taro. Gwerthfawrogwn yn fawr ei ymroddiad a'i wasanaeth yntau hefyd.

Dymunwn yn dda i Einir Wynn Jones (Llansannan) ac Emrys fydd yn priodi y penwythnos nesaf. Gweddiwn y cewch ddiwrnod cofiadwy a dyfodol llawn bendithion.

Rhaghysbysiad

- **Oedfa Diolchgarwch Capel Groes** nos lau, Hydref 20fed am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Owain Davies yn pregethu.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (12^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2 Hydref 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Tybed faint ohonoch sydd wedi clywed am Andrew van der Bijl? Dim llawer mae'n siŵr, ond efallai bod crybwyll y llyfr *God's Smuggler* neu Brother Andrew yn canu cloch? Sôn y mae'r gwahanol enwau am ŵr o'r Iseldiroedd a fu farw yn 94 oed yr wythnos ddiwethaf. Fel cenhadrwr ifanc bu'n teithio'n gyson i wledydd Comiwnyddol dwyrain Ewrop gan ddarparu Beiblau ar gyfer Cristnogion oedd yn wynebu gwrthwynebiad chwyrn yr Undeb Sofietaidd. Cyhoeddwyd nifer o'i atgofion yn y gyfrol *God's Smuggler* ym 1967, ac fe sefydlodd yr elusen *Open Doors* sy'n parhau i gefnogi Cristnogion dan erledigaeth ledled y byd.

Wrth ddarllen am ei deithiau niferus y tu hwnt i'r Llen Haearn, yr hyn a ddaeth yn amlwg oedd sut yr oedd yn dibynnu'n ymarferol ar Dduw bob cam o'r daith. Nid oedd ganddo gynlluniau cyfrwys i osgoi'r awdurdodau, roedd o'n barod i weddio a derbyn y byddai'r Arglwydd yn ei arwain a'i gynnal i gyflawni'r gwaith. Er enghraifft, unwaith wrth iddo groesi'r ffin yn ei gar, cafodd ei atal mewn *check-point* gan filwyr oedd am archwilio'r modur. Gwyddai Andrew yn iawn fod cefn ei gar yn llawn o Feiblau anghyfreithlon. Yn hytrach na'u cuddio, gweddiodd ar i'r Arglwydd ymyrryd, ac fe atebwyd ei weddi wrth i'r milwyr ganiatáu iddo barhau ar ei daith heb ddweud gair am y llyfrau gwaharddedig ar y sêd gefn!

Y perygl i ni o glywed y fath hanesion rhyfeddol yw dyrchafu'r unigolyn sy'n arddangos ffydd, yn hytrach na'r Duw sy'n ymateb yn raslon i alwad Ei blentyn. Yn Mathew 17:20 gwelwn yr Arglwydd Iesu yn dysgu ei ddisgyblion am ffydd trwy ddweud: "*Credwch chi fi, petai'ch ffydd chi mor fach â hedyn mwstard, gallech chi ddweud wrth y mynydd yma, 'Symud i'r fan acw' a byddai'n symud. Fyddai dim byd yn amhosib i chi.*"

Ym mha ffyrdd allwn ni ddibynnu'n ymarferol ar Dduw dros yr wythnos nesaf tybed? Oes sefyllfa y dylem fod yn gofyn yn benodol am gymorth yr Arglwydd i'w hwynebu? Pa benderfyniadau anodd sydd angen eu cymryd yr ydym wedi bod yn eu hosgoi hyd yn hyn?

Gwers fawr Iesu yw nad maint ein ffydd sy'n allweddol, ond ym mhwy y mae ein ffydd! Ac os ydym wedi rhoi ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, gallwn fod yn dawel ein meddwl na fydd Ef yn ein gadael nac yn cefnu arnom, (Hebreaid 13:5) ac y bydd yn adeiladu Ei eglwys '*a fydd grym marwolaeth ddim yn ei gorchfygu hi.*' (Mathew 16:18 beibl.net)

Rhodri



Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Hydref 2^{il}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **Oedfa Diolchgarwch yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Eric Greene.
- **Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gydag Alun yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Hydref 4^{ydd}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Hydref 6^{ed}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan bob wythnos o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. (Byddant yn nôl y plant o'r ysgol ac yn cerdded i'r Festri.) Cyn y sesiwn cyntaf, a wnewch chi gysylltu hefo Gwenno (07833 138515) i gofrestru, os gwelwch yn dda?
- **Oedfa Diolchgarwch Capel Saron** am 7:00 yr hwyr. Pregethir gan y Parch. John Owen.

Dydd Gwener, Hydref 7^{fed}

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Hydref 9^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** (sylwch ar y lleoliad) am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Gymun yn Groes** am 9:30 a bydd Aled Llwyd Jones yn cael ei dderbyn yn aelod cyflawn o'r eglwys, a bydd **Oedfa yng Nghefn Berain** am 11:00. Rhodri fydd yn arwain y ddwy oedfa. Bydd **Ysgol Sul yr oedolion** yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Ysgol Sul y plant yn Henllan** am 10:30.
- **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Llun, Hydref 10^{fed}

- **Gwasanaeth Diolchgarwch Henllan** am 2:00 yng nghwmni Rhodri a phlant Ysgol Henllan, ac oedfa am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Huw Dylan yn pregethu. Fe wneir casgliad arbennig tuag at Ysbyty Alderhey. Croeso cynnes i bawb.
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM** – 'Pwy yw'r Arglwydd Iesu, yr Alfa a'r Omega?' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Gan fod llawer o gyfarfodydd wedi ail ddechrau yn y gwahanol ardaloedd, bydd y gyfres yma ychydig yn wahanol, gyda 3 dyddiad (ar nos Lun yn unig) o rŵan hyd y Nadolig, gan orffen gyda Gwasanaeth Carolau. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Hydref 11^{eg}

- **Noson Dysgu Caneuon Newydd** yn Festri Trefnant am 7:00 yr hwyr – cyfle i chwarae a dysgu caneuon newydd Cristnogol. Mae croeso i bawb, cantorion ac offerynnwyr, ac os oes gennych chi dalent gerddorol gudd, dowch â'ch offeryn efo chi – bydd copïau wedi eu darparu i bawb! Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mercher, Hydref 12^{fed}

- **Cymdeithas Henllan** – Noson gartrefol gydag eitemau gan y plant a'u teuluoedd.

Dydd Sadwrn, Hydref 15^{fed}

- **Encil Undydd Y Weinidogaeth Iacháu** – “Dewch Ymlonyddwch” yng Nghapel Trefnant o 10.30–3.00. Dewch â phe cyn bwyd ar gyfer cinio. Paratoir paned. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Hafwen Roberts (01745 813445). Croeso i bawb.

Dydd Sul, Hydref 16^{eg}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghefn Berain** yng nghwmni'r bobl ifanc am 10:00 gydag anerchiad gan Iestyn ac Ann Jones-Evans.
- **Cyfarfod Diolch a chinio cynnil yn Llanefydd** yng nghwmni Huw Evans. Enwau ar gyfer y cinio i'w rhoi i Mair B. Williams (07979 788048) erbyn Hydref 9^{fed}, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro yn Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.